Rhif: **WG21273**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Cwricwlwm Cymru

### Diwygio Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol) a rhaglenni astudio (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) – y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4

Cam 1: Llythrennedd a rhifedd

Dyddiad cyhoeddi: **26 Mawrth 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **13 Mehefin 2014**

# Cwricwlwm Cymru

## Diwygio Meysydd Dysgu (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol) a rhaglenni astudio (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) – y Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4

### Cam 1: Llythrennedd a rhifedd

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygiadau arfaethedig i'r:

- Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol (mewn perthynas â lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir)
- rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2 i 4.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **13 Mehefin 2014** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: CurriculumforWales@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 5525

© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | **2** |
| **Crynodeb gweithredol** | **4** |
| **Cefndir – yr adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu** | **6** |
| **Y dystiolaeth o blaid newid** | **9** |
| **Y cynigion – egwyddorion datblygu** | **11** |
| **Beth yw'r newidiadau i'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio?** | **16** |
| **Meysydd Dysgu** | **17** |
| **Rhaglenni astudio** | **19** |
| **Asesu** | **23** |
| **Cam 1: Gweithredu a chefnogi** | **25** |

## Rhagair y Gweinidog

Yn sgil fy nghyhoeddiad mai'r Athro Graham Donaldson fydd yn cynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu, mae'r ddogfen hon yn nodi'r cam nesaf yn ein taith tuag at greu'r cwricwlwm cyntaf **i** Gymru – sef cwricwlwm hollol gynhwysol sy'n cydnabod anghenion penodol dysgwyr Cymru, ac sydd hefyd yn adlewyrchu ein gobaith y bydd ein system addysg yn cael ei chydnabod ledled y byd. Rwy'n awyddus i weld dysgwyr Cymru yn tyfu i fyny mewn cymdeithas lle maent yn cael y cyfle i ddysgu mewn modd sy'n meithrin eu gallu i feddwl, i weithredu, i ffynnu ac i addasu.

Yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer Cam 1, a gyhoeddwyd ar 22 Hydref 2013, gofynnais nifer o gwestiynau am gynigion ar gyfer ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm mewn modd a fyddai'n helpu i leihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol. Rwy'n parhau'n gyfan gwbl ymrwymedig i sicrhau bod y pethau sylfaenol hyn yn iawn, a hoffwn ddiolch ichi bob un am roi o'ch amser i ymateb i'r cynlluniau yr wyf wedi eu gosod ger eich bron. Mae'n dda gwybod bod y mwyafrif ohonoch yn cefnogi ein cynigion ar gyfer sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn ganolog i'n trefniadau yma yng Nghymru.

Mae eich cefnogaeth a'ch sylwadau yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion ar gyfer y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio newydd a nodir yn y ddogfen hon, ac fe'ch gwahoddir i ystyried ymhellach y modelau diwygiedig a manwl ar gyfer ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm fel y nodir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Mae'r cynigion yn ymwneud yn benodol â'r canlynol:

- Meysydd Dysgu (y Cyfnod Sylfaen) a rhaglenni astudio (ar ôl y Cyfnod Sylfaen) diwygiedig sy'n ategu ac yn cryfhau'r dull gweithredu a ddefnyddir o dan y FfLlRh
- ymestyn cyfnod y FfLlRh i fod yn berthnasol i ddysgwyr 3 oed hyd at 16 oed, gan sicrhau bod ymarferwyr yn cael yr adnoddau y mae eu hangen arnynt i addysgu llythrennedd a rhifedd hyd eithaf eu gallu ar draws ystod eang o oedrannau dysgwyr, hyd at a chan gynnwys y cyrsiau TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg, rhifedd a thechnegau mathemategol.

Rwy'n edrych ymlaen at gael eich sylwadau, ac rwy'n gobeithio y bydd cynifer ohonoch â phosibl yn cyfrannu at y drafodaeth bwysig hon.

Er bod y mwyafrif ohonoch yn cefnogi'r syniad o barhau i ddatblygu opsiynau ar gyfer ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn y cwricwlwm yn ddi-oed, roedd eich ymatebion hefyd yn dangos bod yna feysydd eraill lle mae nifer sylweddol ohonoch yn teimlo bod angen arafu i'w hystyried yn ofalus a chaniatáu amser i lythrennedd a rhifedd ddod yn rhan annatod o weithgarwch y cwricwlwm. Rydych wedi dweud y dylem ystyried y trefniadau asesu yng nghyd-destun y newidiadau ehangach i'r

cwricwlwm a gynigir yng ngham dau yr adolygiad, ac rwyf wedi gwrando ar hynny. Felly, bydd fy nghynigion ar gyfer asesu'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio newydd yn cael eu cynnwys yng nghyd-destun adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson.

O ran fy nghynigion ar gyfer cyflwyno fframwaith statudol ar gyfer sgiliau ehangach, mae'n dda gennyf ddweud bod y mwyafrif llethol yn eu cefnogi mewn egwyddor – serch hynny nid oes amheuaeth mai'r farn yw y dylid ystyried hyn yng nghyd-destun newidiadau ehangach i'r cwricwlwm. Rwyf wedi gwrando ar y sylwadau hyn, ac rwy'n cytuno y dylid caniatáu digon o amser i lythrennedd a rhifedd ddod yn rhan annatod o weithgarwch y cwricwlwm. Bydd model ar gyfer y fframwaith sgiliau ehangach yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad annibynnol.

Byddaf yn cyhoeddi manylion pellach wrth iddynt ddod i law. Yn y cyfamser, hoffwn eich annog i gymryd rhan yn y drafodaeth bwysig hon drwy ymateb i'r cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn.



Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

# Crynodeb gweithredol

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad *Cwricwlwm Cymru – Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach* ar 22 Hydref 2013. Roedd hwnnw'n holi eich barn am y newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu y bwriedir eu cyflwyno i gefnogi a chryfhau'r broses o ddysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd yn ein hysgolion. Hefyd cyflwynwyd cynigion ar gyfer sicrhau bod sgiliau ehangach yn dod yn elfennau statudol o drefniadau'r cwricwlwm yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad hwn ar agor rhwng 22 Hydref 2013 a 17 Ionawr 2014, a gallwch weld crynodeb o'r ymatebion drwy fynd i http://wales.gov.uk/consultations/education/curriculum-for-wales/?skip=1&lang=cy

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â chanlyniadau'r ymgynghoriad, yn benodol o ran cynigion ar gyfer ymestyn cyfnod y FfLlRh a'i wneud yn rhan annatod o'r trefniadau sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn nodi'r camau nesaf mewn perthynas ag adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson a gyhoeddwyd ar 12 Mawrth 2014.

## Diwygio'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio

Roedd yr ymgynghoriad cyntaf yn cynnwys cynigion ar gyfer diwygio'r trefniadau presennol ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen, a Chymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2 i 4 i ategu'r dull gweithredu a ddefnyddir o dan y FfLlRh.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y byddai'n rhesymegol gwneud hynny ac y byddai mwy o synergedd a chydlyniant o fewn y system o ganlyniad. Ar yr un pryd, fe'i gwelwyd fel ffordd o greu proses ddysgu ddi-dor. Roedd rhanddeiliaid yn rhagweld sefyllfa lle y byddai'n bosibl sicrhau llif di-dor o waith sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol, er mwyn i ddysgwyr allu cyrraedd safon uchel o lythrennedd yn eu holl brofiadau yn yr ysgol. Mynegwyd rhai pryderon y byddai nodi'r sgiliau hyn fel disgwyliadau blynyddol yn hyrwyddo hen arferion a fyddai'n edrych tuag yn ôl yn lle bod yn flaengar. Hoffem ei gwneud yn glir nad yw'r strwythur hwn wedi ei ddylunio i orfodi plant yn y Cyfnod Sylfaen i wella ar gyflymder cyson ym mhob sgil, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r strwythur yn caniatáu i ymarferwyr weld yn glir pa gynnydd a fu erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Rydym wedi elwa o gael cyngor gan ymarferwyr sydd eisoes yn gweithio yn y Cyfnod Sylfaen i weld sut y gallai hyn lwyddo.

## Ymestyn cyfnod y FfLlRh

Hefyd, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion ar gyfer ymestyn cyfnod y FfLlRh i gynnwys dechrau datblygu llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen ymhlith plant ifanc tair i bedair oed, a hefyd, yn y pen arall, i'w ymestyn i fod yn gydnaws â'r cymwysterau TGAU newydd a Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4.

Yn ôl mwyafrif yr ymatebion, roedd y FfLlRh yn cael ei weld fel rhywbeth a allai ddylanwadu'n gadarnhaol ar y gwaith a wneir yn y Cyfnod Sylfaen, gan ei fod yn

creu ffordd o wella a datblygu sgiliau mewn modd di-dor yn seiliedig ar ddisgwyliadau a oedd wedi eu diffinio'n glir.

Roedd cryn dipyn o gefnogaeth i'r cynigion ar gyfer ymestyn cyfnod y FfLlRh mewn modd a fyddai'n gydnaws â'r cymwysterau TGAU newydd a Bagloriaeth Cymru – yn enwedig gan y byddai hynny'n helpu i sicrhau dilyniant yn natblygiad y dysgwr ar draws yr holl gyfnodau addysg.

## Adolygiad annibynnol

Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, caiff gweddill y cynigion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori gyntaf eu hystyried yng nghyd-destun adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson a gyhoeddwyd ar 12 Mawrth 2014. Mae'r rheini'n cynnwys cynigion sy'n ymwneud ag asesu, a gwneud sgiliau ehangach yn elfennau statudol o drefniadau'r cwricwlwm yng Nghymru. Mae'r olaf, hyd yma, wedi cael cefnogaeth y mwyafrif llethol o randdeiliaid. Cewch weld rhagor o fanylion am y cyfeiriad yr ydym yn symud iddo yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

## Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich sylwadau am fanylion y Meysydd Dysgu arfaethedig newydd ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol, a'r rhaglenni astudio newydd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 i 4 ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg. Mae'r rhain yn seiliedig ar ddisgwyliadau o un flwyddyn i'r llall sy'n ategu'r FfLlRh. Fe'u datblygwyd gyda'r nod o sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i elwa arnynt.

Ynghlwm â'r ymgynghoriad hwn, mae dogfen ymgynghori (gweler y cynnwys isod); manylion y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio a ffurflen ymateb.

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad, bydd angen i randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd sicrhau bod ganddynt:

- y ddogfen ymgynghori
- manylion y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio
- y ffurflen ymateb.

Mae'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio arfaethedig ynghyd â'r ffurflen ymateb wedi eu rhestru ar y dudalen ymgynghoriad.

http://www.wales.gov.uk/consultations/education/curriculum-for-wales-revised-literacy-and-numeracy-arrangements/?lang=cy

Cewch gyflwyno eich ymatebion drwy lenwi'r ffurflen ymateb. Rhaid i'ch ymatebion ein cyrraedd erbyn **13 Mehefin 2014** fan bellaf.

# Cefndir – yr adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu

Ym mis Hydref 2012, sefydlwyd adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Ei brif nod oedd integreiddio ac ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) yn y cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Cylch gwaith yr adolygiad oedd ystyried y trefniadau asesu ehangach sy'n cael eu harfer yn ein hysgolion, gan gyflwyno argymhellion ar gyfer y newidiadau angenrheidiol – megis newidiadau i'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio. Y nod oedd sicrhau bod y FfLlRh a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, yn rhan o ddull cydlynol o weithredu. Hefyd, roedd angen i'r adolygiad ystyried a yw'r disgwyliadau o ran yr hyn y dylai plant ei wybod a'r hyn y dylent allu ei wneud, fel y'u nodir yng Ngorchmynion pwnc y cwricwlwm cenedlaethol presennol, yn ddigon heriol ac yn gydnaws â disgwyliadau'r FfLlRh.

Yn sgil cyhoeddi'r adolygiad, ymgysylltodd swyddogion ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i gael eu barn am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio yn y cwricwlwm cenedlaethol, yn enwedig yng nghyd-destun cyflwyno'r FfLlRh a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol. Cafodd y gwaith hwn ei ategu gan adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu sydd ar waith mewn gwledydd sy'n perfformio'n dda. Cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) ac Arad Research:

http://wales.gov.uk/statistics-and-research/rapid-evidence-assessment-impact-curriculum-arrangements-high-performing-countries/?skip=1&lang=cy

Yn ogystal â hynny, cafodd pum grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol eu creu i ystyried elfennau penodol o'r cwricwlwm, sef:

- y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ysgolion a Gweithgarwch Corfforol
- y grŵp adolygu'r celfyddydau mewn addysg
- y grŵp adolygu'r Cwricwlwm Cymreig
- y grŵp adolygu TGCh
- y grŵp adolygu Cymraeg ail iaith.

Mae'r holl grwpiau gorchwyl a gorffen hyn bellach wedi cyhoeddi eu hadroddiadau terfynol.

## Cyhoeddi'r adolygiad annibynnol

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn sgil yr adolygiad cychwynnol o farn rhanddeiliaid, ynghyd ag argymhellion y gwahanol grwpiau gorchwyl a gorffen a grëwyd gan y Gweinidog, wedi mynd ymhell y tu hwnt i gylch gwaith yr adolygiad gwreiddiol. Yng ngoleuni hyn, yn ddiweddar cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau mai'r Athro Graham Donaldson fydd yn arwain adolygiad cynhwysfawr, eang ac annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Gofynnwyd iddo nodi gweledigaeth glir, gydlynol ar gyfer addysg yng Nghymru, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, gan ei chysylltu'n uniongyrchol â'n system gymwysterau

newydd. Bydd yr Athro Donaldson yn gweithio’n agos iawn gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Mae cylch gorchwyl llawn yr adolygiad annibynnol i’w weld ar y dudalen hon:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/terms-of-reference/?skip=1&lang=cy

## Ymgynghoriad Cam 1

Ar 22 Hydref 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg  a Sgiliau ymgynghoriad a barodd am dri mis, sef hyd at 17 Ionawr 2014. Teitl yr ymgynghoriad hwnnw oedd *Cwricwlwm Cymru: Ymgynghori ar gynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu – Cam 1: Holi eich barn am lythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach*.

Fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, prif bwrpas yr ymgynghoriad hwn oedd casglu sylwadau rhanddeiliaid am nifer o gynigion ar gyfer cryfhau a chefnogi dulliau o addysgu llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â chyflwyno'r cysyniad o wneud 'sgiliau ehangach' yn elfennau statudol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Cafodd yr ymgynghoriad ei ategu drwy gyhoeddi fersiwn ohono a oedd yn addas ar gyfer pobl ifanc, yn ogystal â chynnal cyfres o ddigwyddiadau byw ym mhedwar rhanbarth y consortia addysg. Yn ystod y digwyddiadau hyn, gwahoddwyd ymarferwyr i drafod cynigion yr ymgynghoriad yn fanwl, gan roi eu hadborth yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Daeth cyfanswm o 324 o ymatebion i'r prif ymgynghoriad i law, a 202 o ymatebion i'r fersiwn a gyhoeddwyd ar gyfer pobl ifanc. Cymerodd tua 200 o ymarferwyr ran yn y digwyddiadau byw.

## Canlyniadau Cam 1 yr ymgynghoriad

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r prif ymgynghoriad, yr ymatebion i'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc, a'r sylwadau a gasglwyd yn y digwyddiadau ymgynghori, cyn iddynt gael eu cyhoeddi mewn adroddiad cryno gan Lywodraeth Cymru ar 26 Mawrth 2014. Gallwch weld yr adroddiad hwnnw drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/consultations/education/curriculum-for-wales/?skip=1&lang=cy

Yng ngoleuni'r ymatebion hyn, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r prif gynigion ar gyfer ymestyn cyfnod y FfLlRh a chyflwyno Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio diwygiedig i ategu hynny, gan symud cynigion eraill – yn enwedig y rheini sy'n ymwneud ag asesu a gwneud sgiliau ehangach yn statudol – i’r adolygiad ehangach a gynhelir gan yr Athro Donaldson. Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r cynigion hyn.

| Y cynnig | Yr ymateb i'r ymgynghoriad | Cam 1/ Adolygiad annibynnol |
|---|---|---|
| Cyflwyno Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio diwygiedig, sy'n ategu dulliau gweithredu'r FfLlRh. | Y mwyafrif o blaid mewn egwyddor | Cam 1 |
| Ymestyn cyfnod y FfLlRh i gynnwys plant a phobl ifanc 3–16 oed. | Y mwyafrif o blaid mewn egwyddor | Cam 1 |
| Ail-ffocysu asesiadau diwedd cyfnod i adlewyrchu'r ffaith bod llythrennedd a rhifedd yn flaenoriaeth. | Y mwyafrif o blaid mewn egwyddor | Adolygiad annibynnol |
| Gwneud sgiliau ehangach yn elfennau statudol o'r cwricwlwm. | Y mwyafrif o blaid mewn egwyddor | Adolygiad annibynnol |
| Asesu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a llunio adroddiadau arnynt. | Y mwyafrif o blaid mewn egwyddor | Adolygiad annibynnol |
| Defnyddio tasgau dysgu cyfoethog a diddymu'r angen i gyflwyno adroddiad ar asesiadau o wyddoniaeth i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. | Y mwyafrif o blaid mewn egwyddor | Adolygiad annibynnol |
| Diddymu'r angen i lunio adroddiad ar asesiadau cyfunol o bynciau sylfaen ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. | Ymatebion cymysg | Adolygiad annibynnol |

## Cynigion Cam 1

Roedd yr ymatebion a ddaeth i law Llywodraeth Cymru yn dangos bod mwyafrif y rhanddeiliaid o blaid y cynigion canlynol, a'r cynigion hynny yw ffocws y ddogfen hon.

1. Dylid diwygio'r Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen, a rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2 i 4, er mwyn iddynt ategu dulliau'r FfLlRh.

2. Dylid ymestyn cyfnod y FfLlRh i gynnwys sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar ymhlith plant ifanc tair i bedair oed yn y Cyfnod Sylfaen (gan sicrhau bod hyn yn gydnaws â'r sgiliau cynnar a nodir ym map llwybrau Ar Drywydd Dysgu) a hefyd sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'n barhaus tuag at ennill y cymwysterau TGAU newydd a Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gwahodd sylwadau am ddulliau gweithredu a chynnwys y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd hyn.

## Y dystiolaeth o blaid newid

Mae mwy a mwy o dystiolaeth wedi dod i law sy'n dangos nad yw sgiliau llythrennedd a rhifedd pobl ifanc Cymru yn ddigon da, a thynnwyd sylw at hyn yn Adroddiad Blynyddol Estyn 2012–2013[1]. Hefyd mae Estyn wedi llunio adroddiadau thematig penodol ar lythrennedd, iaith, rhifedd, mathemateg a'r Cyfnod Sylfaen[2] sy'n dangos bod angen gwella safonau a pherfformiad, gan wneud argymhellion penodol ar gyfer sicrhau hynny. Rydym yn credu y gallwn fynd rhywfaint o'r ffordd tuag at gyflawni hynny drwy ddiffinio a sicrhau mwy o eglurder ochr yn ochr â darparu hyfforddiant priodol.

Eisoes gwelwyd rhywfaint o gynnydd yn hynny o beth. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh), a ddaeth yn statudol ym mis Medi 2013, yn helpu'r athrawon pwnc i nodi ac i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm cyfan.

Fodd bynnag mae mwy a mwy o dystiolaeth yn dod i law sy'n dangos bod yn rhaid inni gymryd camau pellach i wella sgiliau iaith a mathemategol ein dysgwyr. Roedd canlyniadau PISA (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr) 2012 yn cadarnhau bod gan Gymru rhywfaint o bellter i fynd o hyd. Ym mhob un o feysydd PISA, roedd sgôr gymedrig Cymru yn sylweddol is na'r cyfartaledd a nodir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a'n cymheiriaid yn y DU. O gymharu'r canlyniadau hyn â chanlyniadau 2009, gwelir bod ein perfformiad mewn mathemateg wedi gwaethygu ond bod ein perfformiad mewn darllen wedi gwella ychydig a'i fod cystal â'r lefel a gyrhaeddwyd yn 2006.

Darllen oedd prif faes PISA yn 2009 a mathemateg oedd y prif faes yn 2012. Mae'r gwaith o wneud dadansoddiad manwl o ganlyniadau PISA yn parhau i fynd rhagddo, ond mae dadansoddiad lefel uchel wedi dylanwadu ar y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio drafft hyn, yn enwedig y rhaglen astudio ar gyfer mathemateg. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod dysgwyr Cymru wedi perfformio cryn dipyn yn well mewn ansicrwydd a data, ond yn waeth mewn gofod a siâp, o gymharu â'r sgôr gyffredinol ar gyfer mathemateg. Roedd ein dysgwyr yn gymharol gryf o ran dehongli, cymhwyso a gwerthuso data, ond yn llai cryf wrth ymdrin â chwestiynau a oedd yn gofyn iddynt fformiwleiddio sefyllfaoedd yn fathemategol er mwyn datrys problem. Mae hwn yn sgil pwysig gan ei fod yn berthnasol i lawer o feysydd ym myd gwaith a bywyd. Mae'n cadarnhau'r hyn yr ydym yn ei wybod eisoes am ein cryfderau a'n cyfyngiadau, yn enwedig o ran rhesymu rhifiadol. Mae datblygu maes rhesymu

[1] Adroddiad Blynyddol 2012 - 2013 - Estyn
[2] Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir – Rhagfyr 2013
Adroddiadau thematig – Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 - Hydref 2013 - 2013 - Estyn
Adroddiadau thematig – Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: astudiaeth gwaelodlin – Mehefin 2013 - 2013 - Estyn
Adroddiadau thematig – Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3 - Mehefin 2012 - 2012 - Estyn
Adroddiadau thematig – Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen - Medi 2011 - 2011 - Estyn
Adroddiadau thematig – Rhifedd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed - Gorffennaf 2011 - 2011 - Estyn

rhifiadol o fewn rhifedd, a bellach o fewn mathemateg, yn gam y mae’n rhaid ei gymryd os ydym am wella deilliannau addysgol.

Yn ogystal â defnyddio tystiolaeth sy’n seiliedig ar ddeilliannau addysgol, adroddiadau thematig Estyn, a’r wybodaeth a ddarperir gan PISA, i nodi’r hyn yr oedd angen ei newid, rydym hefyd wedi manteisio ar gael cyngor arbenigol gan ymarferwyr ac arbenigwyr pwnc wrth lunio’r cynigion ar gyfer diwygio Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio.

# Y cynigion – egwyddorion datblygu

Yn gyntaf oll, tasg ymarferol oedd y dasg hon: sef bod yn rhaid ail-lunio'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio presennol yn ddatganiadau o ddisgwyliadau blynyddol, gan sicrhau eu bod hefyd yn gydnaws â'r safonau a nodir yn y FfLlRh. Wrth ddatblygu'r FfLlRh, roeddem yn ymwybodol y byddai hyn yn creu sefyllfa dros dro pryd na fyddai'r disgwyliadau yn cyd-fynd â'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â phwnc, ac rydym wedi gweithio i unioni'r sefyllfa honno. Nid ydym wedi ceisio ychwanegu unrhyw gynnwys newydd o bwys yn ystod y cam hwn gan ein bod yn teimlo na fyddai hynny'n briodol nac yn gydnaws â'n hymgynghoriad blaenorol ar egwyddorion cyffredinol. Hefyd, mae hyn wedi rhoi cyfle inni symleiddio'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio mewn ymateb i'r adborth a roddwyd i'r ymgynghoriad er mwyn eu gwneud yn haws eu gweithredu.

Fel y dywedwyd eisoes, rydym wedi ystyried tystiolaeth ehangach, megis canlyniadau PISA 2012 – a mathemateg yn brif faes y canlyniadau hynny – yn ogystal â sylwadau ymarferwyr presennol, cynghorwyr pwnc ac arbenigwyr pwnc o leoliadau prif ffrwd (sef lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir) ac ysgolion arbennig. Roeddem hefyd yn awyddus i sicrhau bod y broses hon yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu cymwysterau TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg, a'r ddau gymhwyster TGAU arfaethedig mewn mathemateg.

Mantais y math hwn o ymgynghoriad yw ei fod yn caniatáu inni gael barn ar y cynigion ar gyfer newid sut y byddwn yn cyflwyno Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio yn ogystal â'u cynnwys. Caiff y cynnwys ei hunan ei ystyried ymhellach yn ystod y cyfnod ymgynghori yng ngoleuni eich ymatebion a dadansoddi pellach. Mae'r ddogfen hon yn rhan o broses ymgynghori sy'n parhau i fynd rhagddi, a bydd yr adborth yr ydych yn ei roi inni yn dylanwadu ar y cynnyrch terfynol.

Adnodd cynllunio cwricwlwm yw'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio yn bennaf. Eu nod yw helpu ymarferwyr i gynllunio ac asesu, ac i ofalu bod pob dysgwr yn datblygu drwy sicrhau dilyniant yn ei ddatblygiad drwy nodi'r deilliannau a ddisgwylir yn glir. Maent yn seiliedig ar ymchwil i systemau dysgu ac addysgu effeithiol, a chwricwla llwyddiannus mewn gwledydd eraill, gan adeiladu ar yr arferion da a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn llawer o ysgolion/lleoliadau.

Wrth ddatblygu'r cynigion a nodir yn y ddogfen hon, defnyddiwyd yr egwyddorion canlynol.

## 1. Llythrennedd a rhifedd

Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd yn berthnasol i bob rhan o'r cwricwlwm, a rhaid eu haddysgu fel rhan o bob pwnc er mwyn i ddysgwyr eu datblygu'n effeithiol. Mae cysylltiad allweddol hefyd rhwng llythrennedd a rhifedd a phynciau iaith a mathemateg, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion a lleoliadau eraill. O ganlyniad, mae cysylltiad pwysig rhwng y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio hyn a'r FfLlRh.

## 2. Alinio Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio â'r FfLlRh

Ar yr un pryd, rydym yn gwybod bod angen inni godi'r disgwyliadau o ran Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen, ac mewn Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2 i 4 yn ôl y lefelau a nodir yn y FfLlRh. Dyma oedd testun yr ymgynghoriad yn y ddogfen *Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru: Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach*[3].

Bydd y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd yn cynnwys y sgiliau llythrennedd a rhifedd a ddisgrifir yn y FfLlRh, ac yn gwahaniaethu'n glir rhwng y sgiliau a'r amrywiaeth o brofiadau sy'n benodol i bynciau Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg a'r sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n berthnasol i'r cwricwlwm cyfan.

## 3. Y Cyfnod Sylfaen

Mae ethos y Cyfnod Sylfaen yn fyw ac yn iach, ac nid yw'r ddogfen ymgynghori hon yn newid hynny. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle drwy'r cwricwlwm hwn i feithrin y sgiliau a chael yr wybodaeth sydd ei hangen i fod yn ddysgwyr gydol oes. Gellir dilyn egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen i weithredu'r FfLlRh, a dyna ddylid ei wneud. Mae mwy o fanylion ar sut mae hyn yn gweithio yn y Cyfnod Sylfaen i'w gweld yn yr adran 'Meysydd Dysgu' (tudalen 16).

Mae adborth yr ymarferwyr yn awgrymu bod angen inni roi mwy o bwys ar lythrennedd a rhifedd cynnar o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen pan fo plant yn dair oed. Maent wedi gofyn am gymorth a chanllawiau ychwanegol i'w galluogi i wneud hyn. Rydym felly'n bwriadu ehangu'r FfLlRh i gefnogi llythrennedd a rhifedd cynnar ymhlith plant rhwng tair a phump oed yn y Cyfnod Sylfaen. Yn hanfodol, rydym am sicrhau ffocws ar ddatblygu llafaredd ac iaith plant, beth bynnag eu cefndir, o'r dechrau'n deg, fel y gallwn greu sylfaen gadarn iddynt fynd ymlaen i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Caiff y FfLlRh ei ehangu ar sail **anstatudol**.

Mae'r cynigion hyn wedi'u datblygu gyda'r bwriad o gynnwys pob dysgwr, a gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r sgiliau cynharaf a nodir yn map llwybrau Ar Drywydd Dysgu, a byddant ar sail anstatudol.

Yn ogystal, mae adborth rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at y pwysigrwydd a roddir ar Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol yn ystod y cyfnod addysg hwn. Ni wneir unrhyw newidiadau i'r maes yma yn sgil yr ymgynghoriad hwn, a chaiff cynigion ar gyfer cefnogi asesiadau ac adroddiadau Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad annibynnol.

[3] www.wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/131022-curriculum-for-wales-consultation-cy.pdf

## 4. Cyfnod Allweddol 4

Er mwyn sicrhau continwwm datblygiad o'r Cyfnod Sylfaen hyd Gyfnod Allweddol 4 ac i gynnwys cymwysterau, rydym yn bwriadu ymestyn cyfnod y FfLlRh i gynnwys Cyfnod Allweddol 4. Er bod y pynciau'n amrywio yng Nghyfnod Allweddol 4, byddem yn disgwyl i sgiliau llythrennedd a rhifedd barhau i fod yn ddigon heriol. Byddem hefyd yn gobeithio y byddai athrawon pwnc, sy'n ymgorffori'r FfLlRh yn eu gwaith tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 beth bynnag, yn parhau â'u gwaith da ac yn dilyn egwyddorion y FfLlRh estynedig. Unwaith eto, ar sail **anstatudol** y bydd hyn.

Mae'r amserlen ar gyfer datblygu'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio hyn yn cyd-daro â'r gwaith o ddatblygu TGAU newydd Cymru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg a'r ddau bwnc mathemateg newydd. Mae hyn wedi bod yn gyfle unigryw i sicrhau bod datblygu'r cwricwlwm a chymwysterau Cyfnod Allweddol 4 yn digwydd ar y cyd a bod y ddwy elfen yn ategu ei gilydd.

## 5. Y manteision i ymarferwyr

Daw hyn â nifer o fanteision i athrawon Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg.

- Bydd athrawon Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg yn gallu cael mynediad i'r holl ddeunydd y mae'n ofynnol iddynt ei addysgu, a hynny mewn un man – gan osgoi'r perygl y byddai rhai elfennau o'r rhaglenni astudio yn cael eu hepgor.
- Mae hyn yn cadarnhau'r amcan y dylai llythrennedd a rhifedd gael eu haddysgu gan yr athrawon pwnc perthnasol yn achos Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg yn ogystal â'u cyflwyno ar draws y cwricwlwm cyfan.
- Mae'n ein galluogi i wneud y rhaglenni astudio yn fwy cydnaws â'r FfLlRh.
- Mae'n dangos yn glir mai amrywiaeth profiadau, gwybodaeth am y pynciau a sgiliau yw ein blaenoriaeth.
- Bydd yn helpu i sicrhau dilyniant ar draws yr holl cyfnodau dysgu, gan gynnwys elfennau anstatudol a statudol y Cyfnod Sylfaen.

## 6. Disgwyliadau/cyflymder datblygu o un flwyddyn i'r llall

Yn yr ymgynghoriad ar gyfer Cam 1, mynegwyd pryderon ynghylch asesu cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn hytrach na chynnydd ar sail cyfnod addysg. Cododd rhai'r pryderon hyn hefyd pan ddatblygwyd y FfLlRh ar sail blwyddyn i flwyddyn. Ond mae'r mwyafrif yn gefnogol i asesiad ar sail flynyddol. Fodd bynnag, rydym am ei gwneud yn glir, er bod y sgiliau hyn fel pe baent yn dangos datblygiad ar sail cynnydd blynyddol, ein bod yn gwybod bod dysgwyr yn datblygu sgiliau gwahanol ar gyflymder gwahanol, ac mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar. Pan ddatblygir y model asesu, bydd angen rhoi ystyriaeth i hyn. Fel y mae'r model presennol yn sefyll, gellir defnyddio'r datganiadau diwedd cyfnod i ddynodi'r sgiliau a ddisgwylir ym mhob cyfnod.

Gwyddom nad yw pob dysgwr yn datblygu yn yr un ffordd neu ar yr un cyflymder, ac rydym yn cydnabod y gall hyn newid yn achos unigolyn ar wahanol adegau am bob math o resymau. Nid nod strwythur blwyddyn i flwyddyn yw digalonni dysgwyr nad ydynt wedi dangos cynnydd ym mhob sgil a nodir yn eu grŵp blwyddyn, ac ni ddylid ei ddefnyddio i wneud hynny.

Rydym yn cydnabod na fydd pob dysgwr yn dangos yr holl sgiliau ar gyfer colofn eu grŵp blwyddyn o reidrwydd (er enghraifft, efallai y bydd dysgwr yn gweithio ar draws gwahanol golofnau gan ganolbwyntio ar wahanol elfennau). Fodd bynnag, bydd y cynllun hwn yn helpu i nodi cryfderau unigolion a meysydd dysgu ac anghenion y mae angen iddynt eu datblygu yn y dyfodol. Byddai strwythur newydd arfaethedig y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio yn caniatáu i ymarferwyr asesu sefyllfa dysgwr ar hyn o bryd, a beth yw'r camau nesaf. Câi ymarferwyr eu hannog i weithio ar draws y colofnau a datblygu sgiliau dysgwyr ym mhob elfen i'r eithaf. Mae hyn yn caniatáu i ymarferwyr roi ystyriaeth i anghenion dysgu pob dysgwr, beth bynnag yw'r cyfnod datblygu neu'r anghenion dysgu.

## 7. Cynnwys pawb

Ein bwriad yw sicrhau bod y disgwyliadau ychwanegol a nodir yn y FfLlRh a'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd yn berthnasol i **bob** dysgwr.

Mae'r disgwyliadau ychwanegol yn y FfLlRh ynghyd â'r Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol, a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg wedi'u cynllunio gyda phob dysgwr mewn golwg. Nodir cynnydd dysgwr o gymharu â'i sgiliau cynharaf a ddisgrifir yn fanwl ym map llwybrau Ar Drywydd Dysgu[4]. Yna mae'r FfLlRh yn amlinellu sut caiff sgiliau dysgwyr eu mireinio a'u datblygu wrth iddynt symud ymlaen drwy gamau ABC tuag at y disgwyliadau newydd ar gyfer plant oedran Meithrin (a thu hwnt). Daw rhai sgiliau i'r amlwg am y tro cyntaf yn nes ymlaen, yn enwedig lle mae'n rhaid treulio amser yn cryfhau sgiliau sylfaenol.

Rydym yn bwriadu datblygu mwy o ddatganiadau cynnydd i ddysgwyr sy'n gweithio o fewn camau ABC i nodi camau y gallent eu cymryd tuag at y disgwyliadau ychwanegol a ddisgrifir yn y Meysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol.

Gyda'i gilydd, mae datganiadau'r FfLlRh a'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd o ran disgwyliadau yn darparu continwwm datblygiad sgiliau y gall dysgwyr ei ddilyn ymhellach, neu'n gyflymach, mewn rhai agweddau nag eraill, dros gyfnod o sawl blwyddyn. Bydd athrawon dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), er enghraifft dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu penodol neu y mae Cymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn defnyddio datganiadau'r FfLlRh a'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd i nodi datblygiad priodol ac i sicrhau bod cymorth o ansawdd ar gael i bob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau. Bydd yn arbennig o bwysig nodi'r angen am gymorth gwahaniaethol yn achos dysgwyr ag ADY, yn

[4] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/additionaleducationalneeds/routeslearning/?skip=1&lang=cy

enwedig lle bo anabledd yn rhwystr i feithrin sgiliau penodol. Gallai cymorth o'r fath gynnwys cyfrwng cyfathrebu amgen, gan gynnwys defnyddio arwyddion, symbolau neu dechnoleg gynorthwyol. Yn achos dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion godi lefel yr her. Gellir, er enghraifft, ehangu amrywiaeth y tasgau, a phennu tasgau anoddach, mwy cymhleth.

Mae’r Ystod o brofiadau a nodir yn y Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio yn darparu'r deunydd a'r cyd-destunau ar gyfer astudio i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol sy'n benodol i'r pynciau. Dylai pob dysgwr, gan gynnwys y rheini ag ADY, gael cyfle i weld y cynnwys/cyd-destun o'r Ystod o brofiadau gan eu haddasu fel y bo'n briodol. Gallai hyn olygu defnyddio cynnwys cyfnod allweddol cynharach.

## 8. Yr iaith Gymraeg

Datblygwyd y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd gan ystyried hefyd elfennau sy'n benodol i un iaith neu'r llall. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu llythrennedd deuol ac yn creu sylfaen ar gyfer dysgu ieithoedd eraill, gan gynnwys ieithoedd tramor modern yn yr ysgol ac yng nghyd-destun dysgu gydol oes.

Bydd yn ofynnol i ysgolion Cymraeg a dwyieithog addysgu'r rhaglenni astudio Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg newydd. Bydd gan ysgolion Saesneg ddwy raglen astudio newydd i'w hystyried (Saesneg/llenyddiaeth a mathemateg/rhifedd).

## Beth yw'r newidiadau i'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio?

Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar yr *Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru: Cam 1* mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf)/Saesneg a phynciau mathemategol o blaid patrwm tebyg i'r FfLlRh, h.y. cynnydd blynyddol. Dyma'r patrwm rydyn ni wedi'i fabwysiadu. Mae i hyn y fantais o ganiatáu manylder ychwanegol wrth drafod datblygiad sgiliau ac o ddangos yr hyn y gallwn ddisgwyl i ddysgwyr ei wneud ym mhob grŵp blwyddyn. Rydym yn cydnabod na ellir bod yn rhy llym yn hyn o beth, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan fod dysgwyr yn datblygu ar gyflymder gwahanol. Serch hynny, bydd yn sicrhau eglurder mwy na'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio presennol.

Mae i'r cynllun newydd y fantais ychwanegol o ddangos dilyniant clir a pharhad o un cyfnod i'r llall; hynny yw, bod datblygu sgiliau mewn pwnc penodol yn gontinwwm sy'n dechrau cyn Dosbarth derbyn ac yn parhau tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Rydym wedi penderfynu ymgynghori ynghylch y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig sy'n cynnwys sgiliau'r FfLlRh. Mae hyn yn golygu y gallwn weld yn glir sut mae'r sgiliau’r FfLlRh trawsgwricwlaidd yn cydgysylltu â'r sgiliau sy'n benodol i'r pynciau. Gellir olrhain y sgiliau hyn yn ôl mewn ffordd sy'n caniatáu i blant gael eu cefnogi lle bynnag y maent arni. Nid i ddysgwyr sydd ag ADY yn unig y mae'r sgiliau a amlinellir yn y cyfnodau cyn Dosbarth derbyn. Maent yn berthnasol i bob plentyn ar y sbectrwm dysgu.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r newidiadau a wnaed i bob Maes Dysgu/rhaglen astudio.

# Meysydd Dysgu

## 1. Model diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r Maes Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn defnyddio sgiliau ac amrywiaeth profiadau'r Gorchymyn cwricwlwm presennol a'i ddeilliannau yn ogystal â'r FfLlRh. Rhoesom ystyriaeth ofalus i ddeilliannau presennol y Cyfnod Sylfaen wrth lunio datganiadau am ddisgwyliadau, ac i'r ffaith bod disgwyl i blant Blwyddyn 2 gyrraedd Deilliant Lefel 5 erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Roeddem yn ofalus wrth ddatblygu'r Maes Dysgu diwygiedig, a'r FfLlRh anstatudol, i blant ifanc iawn (Meithrin) i adlewyrchu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu cynnar pwysig. Mae'r elfennau arfaethedig hyn sy'n briodol i'r cyfnod dysgu hwn yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd datblygu llafaredd plant ifanc iawn wrth baratoi ar gyfer darllen ac ysgrifennu.

Mae rhai o'r farn bod gwrthdaro rhwng y ffordd y mae'r FfLlRh yn nodi cynnydd o un flwyddyn i'r llall ac ethos y Cyfnod Sylfaen. Nid oedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y FfLlRh o'r farn bod yna wrthdaro. Y pwynt allweddol yw nad yw'r FfLlRh a'r Meysydd Dysgu diwygiedig yn galw am newid mewn addysgeg, ond maent yn egluro beth ddylai fod yn wir am gynnydd dysgwr, a'r amrywiaeth profiadau y dylai ei gynnwys. Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, dim ond asesiad a ddisgwylir, a fydd yn llywio'r camau datblygu nesaf. Dim ond ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen y caiff asesiad cyfunol mwy ffurfiol o'r dysgu ei gynnal. I helpu i sicrhau eglurder, caiff elfennau sgiliau yn y Meysydd Dysgu diwygiedig eu cyflwyno fel continwwm, er mwyn gallu gweld lle mae dysgwr ar hyn o bryd, a chynllunio ar gyfer ei gam datblygu nesaf. Mae hyn yn caniatáu i ymarferwyr ac athrawon gynllunio ac asesu er mwyn cefnogi pob plentyn yn ei ddysg, beth bynnag ei oedran, gan ei symud ymlaen pan fydd yn barod.

Mae llinynnau llythrennedd y FfLlRh, er yn rhan hollbwysig o'r Maes Dysgu, yn glir drwy gydol y ddogfen. Y bwriad yw addysgu'r sgiliau hyn drwy bob math o dasgau a chyfleoedd ar draws y Meysydd Dysgu er mwyn rhoi profiadau i'r plant i ddatblygu, ymarfer a mireinio eu sgiliau o fewn cyd-destunau priodol.

## 2. Model diwygiedig ar gyfer Datblygiad Mathemategol

Mae'r Maes Dysgu diwygiedig ar gyfer Datblygiad Mathemategol yn defnyddio sgiliau ac amrywiaeth profiadau'r cwricwlwm presennol a'i ddeilliannau yn ogystal â'r FfLlRh. Rhoesom ystyriaeth ofalus i ddeilliannau presennol y Cyfnod Sylfaen wrth lunio datganiadau am ddisgwyliadau, ac i'r ffaith bod disgwyl i blant Blwyddyn 2 gyrraedd Deilliant Lefel 5 erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Wrth ddatblygu'r Maes Dysgu diwygiedig ar gyfer Datblygiad Mathemategol, a'r FfLlRh anstatudol, i blant ifanc iawn (Meithrin), cymerwyd gofal i adlewyrchu lefel dealltwriaeth plant y cyfnod hwn o gysyniadau. Mae hyn hefyd yn wir wrth inni symud ymhellach i mewn i'r Cyfnod Sylfaen, pan gaiff dysgwyr gymorth i adeiladu ar eu sgiliau pan fyddant yn barod.

Fel yn achos Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, caiff elfennau sgiliau ar gyfer Datblygiad Mathemategol eu cyflwyno fel continwwm i'w gwneud yn bosibl dysgu ac addysgu mewn ffordd sy'n briodol i gyfnodau datblygu dysgwyr.

Mae llinynnau rhifedd y FfLlRh, er yn rhan hollbwysig o'r Maes Dysgu, yn glir drwy gydol y ddogfen. Y bwriad yw addysgu'r sgiliau hyn drwy bob math o dasgau a chyfleoedd ar draws y Meysydd Dysgu er mwyn rhoi profiadau i'r plant i ddatblygu, ymarfer a mireinio eu sgiliau o fewn cyd-destunau priodol.

## 3. Ehangu'r FfLlRh i adlewyrchu datblygiad plant ifanc iawn (Meithrin) – goblygiadau i ddysgwyr ag ADY

Mae'r FfLlRh newydd ar gyfer plant ifanc iawn (Meithrin) yn darparu datganiadau cynnydd ychwanegol a fydd yn ddefnyddiol hefyd i ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr y mae eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran (dysgwyr ag ADY, yn enwedig y rheini mewn ysgolion arbennig a lleoliadau eraill). Mae'r datganiadau newydd yn dilyn y rheini a amlinellir yng nghamau ABC ac yn paratoi'r ffordd at ddatganiadau Dosbarth derbyn. Cynigir, felly, bod y FfLlRh cynhwysol bellach yn cynnwys colofn ychwanegol. Gweler isod.

| Map llwybrau Ar Drywydd Dysgu | Camau A | Camau B | Camau C | Meithrin | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnydd ⟶ | | | | | | | |

Ar wahân i ychwanegu'r datganiadau hyn ar gyfer plant Meithrin, ni wnaed unrhyw newidiadau pellach i linynnau llythrennedd y FfLlRh (Llafaredd ar draws y cwricwlwm, Darllen ar draws y cwricwlwm ac Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm). I sicrhau datblygiad di-dor yn sgiliau rhifedd dysgwyr ag ADY sy'n gweithio o fewn y colofnau hyn, rydym wedi addasu pump o ddatganiadau rhifedd presennol y FfLlRh yng Nghamau C ac un arall yng Nghamau B.

# Rhaglenni astudio

## 1. Model diwygiedig ar gyfer mathemateg

Wrth ddatblygu'r rhaglen astudio mathemateg, ystyriwyd yn ofalus y disgwyliadau priodol ar sail oedran, a threuliwyd rhan sylweddol o'r broses ddatblygu yn astudio'r FfLlRh statudol, ynghyd â manyleb y cwricwlwm cyfredol a'r disgrifiadau lefel. Mae disgwyliadau'r FfLlRh ar gyfer diwedd Blwyddyn 6, felly, yn nes at Lefel 5, ac mae disgwyliadau diwedd Blwyddyn 9 yn nes at Lefel 6.

Ystyriwyd a ellid addysgu sgiliau rhifedd mewn gwersi mathemateg cyn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm. Pe baem yn dilyn y dull gweithredu hwn, byddai dysgwyr yn dechrau dysgu sgiliau Lefel 5 cyn Blwyddyn 6 er mwyn eu datblygu mewn pynciau eraill yn ystod Blwyddyn 6. Cytunwyd yn ystod gweithdai rhanddeiliaid bod disgwyliadau'r FfLlRh yn unol â datblygiad gwybyddol a mathemategol dysgwyr, ac felly y byddai'r model uchod yn amhriodol i ormod o ddysgwyr. Byddai hefyd wedi gwneud y rhaglen astudio yn reit gymhleth gyda sawl datganiad yn cael eu hailadrodd mewn gwahanol grwpiau blwyddyn, yn ôl p'un ai datganiadau rhifedd neu fathemateg oeddent. Rydym wedi gwneud hyn yn fater o egwyddor wrth ddatblygu rhaglen astudio mathemateg.

Mae rhaglen astudio mathemateg wedi'i hysgrifennu i fod yn gydnaws â'r disgwyliadau a nodir yn y FfLlRh, sy'n codi'r lefel mewn sawl achos o gymharu â'r disgwyliadau presennol. Mae rhaglen astudio mathemateg yn nodi'n benodol dair lefel cynnydd rhwng diwedd Blwyddyn 6 a diwedd Blwyddyn 11. O ran pa mor gydnaws y mae â chydran rhifedd y FfLlRh, nid oes modd nodi'r cynnydd hwn fel llinell syth ac ni fyddai'n realistig cymryd yn ganiataol y bydd cynnydd dysgwyr yn digwydd mewn ffordd unffurf.

Wrth ddatblygu rhaglen astudio mathemateg a chydran rhifedd y FfLlRh estynedig, h.y. Blynyddoedd 10 ac 11, rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y disgwyliadau yn gyson ag arholiadau TGAU newydd mathemateg, a bydd hyn yn parhau yn ystod yr ymgynghoriad hwn ac ar ei ôl. Mae'r disgwyliadau a amlinellir yn rhaglen astudio mathemateg a chydran rhifedd y FfLlRh ar gyfer Blwyddyn 11 yn gyson â'r hyn y byddem yn disgwyl i ddysgwr sy'n cael gradd B yn y TGAU mathemateg newydd ei gyflawni. Mae’r golofn Ymestyn y tu hwnt i Flwyddyn 11 yn dynodi'r deilliannau a ddisgwylir ar lefel gradd A TGAU.

Drwy ddefnyddio'r un dull â'r FfLlRh a darparu disgwyliadau manwl o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer dysgwyr, mae rhaglen astudio mathemateg yn gwneud pethau'n glir gan helpu dysgwyr i ddatblygu. Mae hefyd yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r disgwyliadau am yr hyn y dylai dysgwyr fod wedi'i gyflawni a'r camau nesaf yn eu dysg. Mae'n sicrhau bod datblygiad sgiliau mathemategol yn dilyn trefn resymegol.

**Datblygiad**

Yn unol â'r FfLlRh, mae disgwyl i ddysgwyr mathemateg ddysgu gwneud y canlynol i lefel uchel.

- Datblygu sgiliau ymresymu.

- Defnyddio sgiliau rhif.
- Defnyddio sgiliau mesur.
- Defnyddio sgiliau data.

Mae rhaglen astudio mathemateg hefyd yn datblygu sgiliau dysgwyr mewn dwy elfen bellach.

- Defnyddio sgiliau geometreg.
- Defnyddio sgiliau algebra.

Mae tebygolrwydd yn elfen ychwanegol o 'Defnyddio sgiliau data'.

Fe'i gwneir yn glir lle nad yw datganiadau am ddisgwyliadau yn rhan o'r FfLlRh ac sydd ond yn rhan o raglen astudio mathemateg. Mae pob datganiad arall yn rhan o'r FfLlRh a rhaglen astudio mathemateg. Mewn rhai achosion, bydd datganiad yn cynnwys geiriau nad ydynt yn rhan o'r FfLlRh. Gwneir hyn i bwysleisio elfen fathemategol o ddatganiad rhifedd, ac i hybu dealltwriaeth gyfannol o fathemateg.

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng mathemateg a rhifedd?**

Mae rhaglen astudio mathemateg yn canolbwyntio, i raddau helaeth, ar sgiliau rhifedd o gydran rhifedd y FfLlRh a'r amrywiaeth a'r sgiliau cyfredol a amlinellir yn *Mathemateg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru: Cyfnodau Allweddol 2–4* (2008). Rydym hefyd wedi defnyddio manylebau TGAU ar gyfer cynnwys, rydym wedi edrych ar raglenni astudio rhyngwladol, yn ogystal ag ymgynghori ag ymarferwyr sydd yn y maes ar hyn o bryd.

Mae'r llinyn 'Defnyddio sgiliau algebra' yn ymddangos yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ogystal ag yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Nid ychwanegu cynnwys yw'r bwriad ond adlewyrchu'r arferion da sy'n amlwg mewn llawer o ysgolion a helpu dysgwyr i ddatblygu eu geirfa fathemategol a'u sgiliau algebra.

Yng ngoleuni casgliadau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, *Cwricwlwm Cymru: Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru*, ni nodwyd cynnwys ychwanegol ar gyfer Blynyddoedd 7, 8 a 9 er mwyn rhoi hyblygrwydd i ysgolion i ganiatáu i ddysgwyr ymchwilio i gysyniadau mathemategol a chymhwyso sgiliau mathemategol mewn cyd-destunau ystyrlon.

Nododd ein gweithdai i randdeiliaid rai elfennau mathemategol pellach i'w hymgorffori yn addysg Blynyddoedd 10 ac 11, er mwyn hwyluso'r broses bontio i Safon Uwch Gyfrannol o ran nodi fectorau, neu ehangu amrywiaeth y sgiliau data wrth ddelio â diagramau o fonion a dail a defnyddio plotiau blwch. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys ar hyn o bryd, gan mai'r briff oedd peidio ag ychwanegu cynnwys newydd sylweddol i Gyfnod Allweddol 4. Byddem yn croesawu sylwadau ar y penderfyniad hwn yn ystod yr ymgynghoriad.

## 2. Model diwygiedig ar gyfer Rhaglenni Astudio Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg

Yn sgil yr adolygiad o'r cwricwlwm yn 2008, daethpwyd â Rhaglenni Astudio Cymraeg a Saesneg yn llawer nes at ei gilydd, ond at ddibenion yr ymgynghoriad hwn rydym wedi ceisio eu gwneud yn debycach byth.

Datblygwyd cydran llythrennedd y FfLlRh fel bod y disgwyliadau ar gyfer Cymraeg a Saesneg yn debyg, ac wrth ailwampio'r Rhaglenni Astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg rydym wedi ceisio gwneud yr un peth. Mae yna rai elfennau unigryw yn y fersiwn Gymraeg i adlewyrchu gofynion unigryw y Gymraeg, ond ar wahân i'r rhain mae'r sgiliau ar gyfer y ddwy iaith bron union yr un fath â'i gilydd. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, Saesneg a dwyieithog yn canolbwyntio, yn y bôn, ar yr un sgiliau llythrennedd ac iaith, beth bynnag yw prif iaith y ddarpariaeth.

Wrth ddiwygio'r Rhaglenni Astudio Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg, ystyriwyd yn ofalus ddisgwyliadau priodol y FfLlRh ar sail oedran, y gofynion o ran sgiliau statudol a disgrifiadau lefel manyleb y cwricwlwm cyfredol. Mae'r rhaglenni astudio newydd arfaethedig ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg wedi'u rhannu'n dair rhan.

1. Ystod o brofiadau (i'w rhoi yn ystod cyfnod allweddol).
2. Disgwyliadau'r FfLlRh o ran llafaredd, darllen ac ysgrifennu o un flwyddyn i'r llall.
3. Sgiliau Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg o un flwyddyn i'r llall.

Mae'r adran ar Ystod o brofiadau yn canolbwyntio ar y cyfleoedd a'r cyd-destunau ar gyfer datblygu a chadarnhau'r sgiliau. Bydd adran y FfLlRh eisoes yn gyfarwydd i athrawon Cymraeg a Saesneg. Mae'r adran arfaethedig ar Ystod o brofiadau yn cwmpasu'r cyfnod allweddol cyfan ac mae wedi'i chynllunio i roi hyblygrwydd i ymarferwyr ddewis pynciau a dulliau a fydd yn berthnasol i'r dysgwyr. Nod y disgwyliadau arfaethedig ar gyfer sgiliau Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg o un flwyddyn i'r llall yw cydnabod datblygiad dysgwyr o ran technegau sylfaenol a chymhwyso'r sgiliau yng nghyd-destun y pynciau unigol. At ddibenion ymgynghori, rydym wedi gosod y sgiliau Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg i'w hasesu o un flwyddyn i'r llall fel adran ar wahân i ddilyn adran y FfLlRh.

Wrth ddatblygu'r Rhaglenni Astudio Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg a'r FfLlRh estynedig, h.y. Blynyddoedd 10 ac 11, rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y disgwyliadau yn gyson ag arholiadau TGAU newydd Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg Iaith, a bydd hyn yn parhau yn ystod yr ymgynghoriad hwn ac ar ei ôl. Mae'r disgwyliadau a amlinellir yn y FfLlRh ac ar gyfer sgiliau Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg Blwyddyn 11 o un flwyddyn i'r llall yn gyffredinol gyson â'r hyn y byddem yn disgwyl i ddysgwr sy'n cael gradd B yn yr arholiadau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg Iaith newydd ei gyflawni. Mae'r golofn Ymestyn y tu hwnt i Flwyddyn 11 yn dynodi'r deilliannau a ddisgwylir ar lefel gradd A TGAU.

**Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)**

Wrth ymestyn cyfnod y FfLlRh i gynnwys Blynyddoedd 10 ac 11, ni ellir rhagdybio y bydd y cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr yn y grwpiau blwyddyn hyn mor eang ag ar gyfer Blynyddoedd 7, 8 a 9.

Mae’r golofn Ymestyn a nodwyd eisoes yng nghydran rhifedd y FfLlRh yn amlinellu dulliau naturiol o ehangu rhai o sgiliau rhifedd Blwyddyn 9. Fel y nodwyd eisoes, ni ellir datblygu pob sgil o ran rhifedd heb i'r peth fynd yn gwbl fathemategol.

Dim ond mewn perthynas â'r sgiliau rhifedd y gellir eu datblygu'n bwrpasol mewn cyd-destun ystyrlon o fewn y pynciau 'craidd' ym Mlynyddoedd 10 ac 11 y caiff cyfnod y FfLlRh ei ymestyn i gynnwys y blynyddoedd hynny.

# Asesu

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd asesu effeithiol, a'r systemau cysylltiedig, a'i fod yn allweddol er mwyn sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Rydym hefyd yn parhau yn ein hymrwymiad i asesiadau athrawon a'u rôl ym mhob cyfnod wrth lywio addysgu a dysgu at ddibenion asesu er mwyn dysgu (ffurfiannol) ac asesu'r dysgu ei hun (cyfunol).

Yn yr ymgynghoriad ar gyfer Cam 1, cynigiwyd y dylid cynnal asesiad ar ddiwedd cyfnod o safbwynt Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu/Datblygiad Mathemategol a Chymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor ar y cynnig hwn gan y byddai'n ffordd well o gydlynu yr hyn a asesir ac yr adroddir arno. Fodd bynnag, yr hyn sydd hefyd yn glir o'r ymatebion yw'r angen am weledigaeth strategol a methodoleg asesu ar draws y cwricwlwm. Ar y sail honno, rydym wedi penderfynu ystyried trefniadau asesu yn gyffredinol fel rhan o’r adolygiad ehangach a arweinir gan Yr Athro Donaldson.

## 1. Asesiadau athrawon

Yn y ddogfen ymgynghori, nodwyd nifer o opsiynau i helpu i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi ynghylch pa mor ddibynadwy a dilys yw asesiadau athrawon, materion a godwyd yn *Ymchwiliad i Asesiadau Athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3*[5]. Nododd ymatebwyr bod angen mwy o fanylion am y cynigion hyn. Fel rhan o ail gam yr adolygiad, felly, byddwn yn ystyried ffactorau fel:

- swyddogaeth a budd sicrhau/cymedroli ansawdd ar lefel ranbarthol
- a oes angen a budd i samplu i helpu gwaith cymedroli
- yr hyn y mae'r broses yn ei olygu o'i dechrau i'w diwedd, a'r hyn fyddai'n ofynnol
- p'un a yw tasgau dysgu cyfoethog ac adnoddau cysylltiedig eraill yn gallu helpu asesiadau athrawon a sut, ac a ddylid eu defnyddio.

## 2. Y trefniadau asesu ar hyn o bryd

Mae'r trefniadau asesu statudol cyfredol ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/14 wedi'u nodi yn y *Trefniadau asesu statudol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3*.

Yn ogystal, o fis Medi 2014, bydd gofyn i ysgolion ddefnyddio'r FfLlRh i asesu cynnydd dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Gwneir hynny at ddibenion asesu ffurfiannol, h.y. defnyddio'r wybodaeth a fonitrir i wella'r dysgu a'r addysgu ar gyfer y dysgwr. O ran adrodd, yr unig ofyniad o ran y FfLlRh ar hyn o bryd yw bod ysgolion, ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd, yn llunio adroddiad naratif ar gyfer rhieni/gofalwyr ar gynnydd eu plentyn ac yn nodi'r camau nesaf ar sail yr asesiad hwn. Ategir hyn gan ddata profion darllen a rhifedd.

[5] *Ymchwiliad i Asesiadau Athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3,* Llywodraeth Cymru

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal cynlluniau peilot ac yn llunio canllawiau a fydd yn helpu ysgolion i lunio'r adroddiadau trawsgwricwlaidd hyn. Bydd y canllawiau ar gael erbyn gwanwyn 2014.

## 3. Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu asesiad sylfaenol newydd wrth i blant bach ddechrau ar y Cyfnod Sylfaen, fel rhan o Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar. Caiff yr asesiad ei ddefnyddio i asesu pob plentyn pan ddechreuant gyntaf ar y Cyfnod Sylfaen rhwng tair a phump oed. Yn ogystal, mae asesiad tracio blynyddol yn cael ei ddatblygu i asesu cynnydd ar ddiwedd pob blwyddyn o'r Cyfnod Sylfaen tan Flwyddyn 2, pan gynhelir asesiad diwedd cyfnod cyn i blentyn symud i Gyfnod Allweddol 2.

Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod yr asesiad sylfaenol newydd ar ddechrau'r cyfnod yn rhan o gyfres gydlynol barhaus o asesiadau, o ddechrau'r ysgol i gyfnod cymwysterau a thu hwnt. Mae'n bwysig, felly, sicrhau bod yr asesiad ar ddechrau'r cyfnod a'r asesiadau ar ddiwedd y cyfnod yn gydnaws â'i gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda datblygwyr y fethodoleg asesu newydd, yn ogystal â'r rhanddeiliaid, i sicrhau system gyson o fesur cynnydd drwy gydol y Cyfnod Sylfaen sy'n gydnaws â'r trefniadau asesu yn gyffredinol.

# Cam 1: Gweithredu a chefnogi

## 1. Rhoi'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar waith

Byddwn yn llawn gefnogi ysgolion a lleoliadau i roi'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd ar waith ynghyd ag ehangu'r FfLlRh i ddysgwyr 3–5 oed ac yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn yr un modd, byddwn yn cefnogi lleoliadau nas cynhelir sy'n cael eu hariannu i gyflwyno'r FfLlRh ar gyfer eu plant tair a phedair oed.

Rydym wedi dysgu gwersi gwerthfawr drwy ein profiadau diweddar o weithredu'r FfLlRh. Mae adborth y sector cyn ei roi ar waith ac yn ystod y broses wedi rhoi gwell syniad inni o lle mae angen cymorth, yn ogystal â phryd a sut y dylid ei ddarparu. Mae rôl yr haen ganol, h.y. consortia addysg rhanbarthol, yn hollbwysig a bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â nhw.

Er nad yw'r ddogfen hon yn nodi'n fanwl sut byddwn yn rhoi cymorth, bydd yn dibynnu'n fawr ar y profiadau uchod a'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru gynnwys canllawiau, deunyddiau hyfforddi a deunyddiau ac enghreifftiau dysgu ac addysgu. Nid ydym eto wedi cytuno'n derfynol ynghylch sut i ddarparu'r gefnogaeth honno, h.y. y fformat a'r amseru. Bydd y canllawiau a ddarparwn ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn gydnaws â'r amrywiaeth cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn sicrhau dull cydlynol o weithredu.

Ein bwriad yw darparu pob canllaw a chymorth yn ddwyieithog a bydd hyn ar gael i bob athro/athrawes.

## 2. Llinell amser fras ar gyfer gweithredu

**Mawrth i Fai 2014**
Mae'r ymgynghoriad hwn gan Lywodraeth Cymru yn holi rhanddeiliaid am eu barn am y Meysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol a rhaglenni astudio diwygiedig Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 i 4 i gynnwys sgiliau llythrennedd a rhifedd yn unol â'r FfLlRh.

**Hydref 2014**
Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, cyflwyno'n anstatudol y Meysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol a rhaglenni astudio diwygiedig Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 i 4 i gynnwys sgiliau llythrennedd a rhifedd yn unol â'r FfLlRh.

**Medi 2015**
Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, cyflwyno'n statudol y Meysydd Dysgu diwygiedig ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol a rhaglenni astudio diwygiedig Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a

mathemateg,  ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 i 4 i gynnwys sgiliau llythrennedd a rhifedd yn unol â'r FfLlRh.